



Nodyn o'r cyfarfod

Cyfeirnod ffeil	EN010007
Prosiect	Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd
Statws	Terfynol
Awdur	Karl-Jonas Johansson
Dyddiad	29 Tachwedd 2017
Cyfarfod â	Horizon Nuclear Power
Lleoliad	Temple Quay House, Bryste
Yn bresennol	Yr Arolygiaeth Gynllunio Chris White – Arweinydd Cynllunio Seilwaith Kay Sully – Rheolwr Achos Karl-Jonas Johansson – Swyddog Achos Hannah Pratt – Uwch Gynghorydd AEA a Hawliau Tîr Horizon Nuclear Power David Palmer – Horizon Nuclear Power Alex Herbert – Horizon Nuclear Power Nigel Howorth – Clifford Chance
Amcanion y cyfarfod	Cyfarfo diweddarau prosiect
Cylchrediad	Pawb a oedd yn bresennol

Crynodeb o'r prif bwyntiau a drafodwyd a'r cyngor a roddwyd

Cynghorodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn o'r cyfarfod yn cael ei gymryd a'i gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008 (DC2008). Ni fyddai unrhyw gyngor a roddir o dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai ymgeiswyr (neu bobl eraill) ddibynnu arno.

Dyddiad cyflwyno

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod yn bwriadu cyflwyno'r cais ar 29 Mawrth 2018.

Cytunodd yr Ymgeisydd i ystyried dod â'r dyddiad cyflwyno ymlaen i 28 Mawrth 2018, oherwydd y byddai hynny'n caniatáu i lythyrau Digonolrwydd Ymgynghori gael eu hanfon at yr awdurdodau lleol perthnasol cyn y Pasg. Eglurodd yr Arolygiaeth pe byddai'r cais yn cyrraedd ar ôl 5pm, byddai'r cyfnod Derbyn yn dechrau ar y diwrnod gwaith canlynol.

Diweddariad ar y prosiect

Mae'r dogfennau drafft yn cael eu hadolygu gan ymgynghoreion statudol amrywiol ar hyn o bryd, a disgwylir iddynt anfon eu hadborth at yr Ymgeisydd yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 4 Rhagfyr 2017. Mae'r Ymgeisydd a'r ymgynghoreion wedi dechrau drafftio Datganiadau o Dir Cyffredin. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod yn bwriadu

cyflwyno datganiad sefyllfa ar y Datganiad o Dir Cyffredin gyda'r cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu.

Dywedodd yr Ymgeisydd nad oedd yn disgwyl i unrhyw faterion newydd godi o'r adolygiad presennol na ellir eu datrys cyn cyflwyno'r cais. Crybwyllwyd ymhellach fod yr Ymgeisydd yn ei hystyried yn risg hawdd ei thrin.

Esboniodd yr Ymgeisydd y gallai'r datblygiad arfaethedig gael effaith sylweddol ar SoDdGA Tre'r Gof, sydd wedi'i leoli'n agos at y datblygiad arfaethedig. O ganlyniad, mae'r Ymgeisydd wedi trafod y mater â Cyfoeth Naturiol Cymru ac wedi amlygu tri safle cydadfer posibl i greu cynefinoedd. Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu cynnwys y safleoedd hyn yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft. Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod yn agos at gytuno telerau â pherchnogion y tir y bwriedir ei ddefnyddio'n dir cydadfer. Cododd yr Ymgeisydd y rhagolwg o gynnal ymgynghoriad statudol wedi'i dargedu yn Ionawr 2018. Ni phenderfynwyd pwy fydd yn ei dderbyn hyd yn hyn, ond byddai'n cynnwys y tiffeddianwyr dan sylw. Holodd yr Arolygiaeth a oedd ymgynghoriad wedi'i dargedu yn briodol, o ystyried y tir newydd a oedd yn cael ei gynnwys yn y cynigion. Fe wnaethant gynghori'r Ymgeisydd y byddai angen sicrhau bod yr holl bartion perthnasol yn cael cyfle i roi sylwadau ar y newid arfaethedig hwn. Byddai angen amlinellu cyfiawnhad clir ar gyfer y dull a ddefnyddir gan yr Ymgeisydd yn yr Adroddiad Ymgynghori. Cyfiawnhaodd yr Ymgeisydd y dull trwy ddyfynnu prosiectau eraill a oedd wedi ymestyn eu ffiniau coch. Nododd yr Arolygiaeth nad oedd y safleoedd cydadfer yn estyniad i'r ffin goch bresennol, ond yn ychwanegu ardal newydd sbon at safle'r cais. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd nad oedd Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn ymwybodol o'r bwriad i gynnal ymgynghoriad pellach. Cynghorwyd yr Ymgeisydd i drafod yr ymgynghoriad â CSYM ac archwilio a fyddai angen newid y Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned. Ailadroddodd yr Arolygiaeth ei chyngor blaenorol ynghylch yr angen i'r Ymgeisydd ganiatáu digon o amser i gynnwys a mynd i'r afael ag unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad yn nogfennau'r cais. Dywedodd yr Ymgeisydd nad oedd yn disgwyl i unrhyw faterion newydd ddeillio o hyn, ac felly ei fod yn gyfforddus â lefel y risg yr oedd yr ymgynghoriad yn ei chynnwys.

Amserlen

Trafodwyd amserlenni archwilio drafft arfaethedig yr Ymgeisydd. Amlygodd yr Arolygiaeth fod dyddiad y Cyfarfod Rhagarweiniol a'r amserlen Archwilio yn cael eu pennu gan yr Awdurdod Archwilio. Trafodwyd y materion yn ymwneud â chael y cyfnod Sylwadau Perthnasol yn ystod gwyliau'r haf a diwedd yr archwilio dros gyfnod y Nadolig.

Cynghorwyd yr Ymgeisydd i beidio â thybio y byddai'r mewnbwn i'r archwiliad yn arafu wrth i'r archwiliad fynd rhagddo, ac i ystyried amseroedd cyfieithu wrth baratoi dogfennau neu ymateb i gyflwyniadau.

Cynghorwyd yr Ymgeisydd y gall unrhyw gyngor adran 51 a gyhoeddir ar ôl derbyn y cais effeithio ar hyd y cyfnod Cyn-Archwiliad. Cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd ymhellach, pe byddai'n cytuno i ganiatáu i ddogfennau'r cais gael eu cyhoeddi adeg cyflwyno'r cais, byddai hyn yn rhoi cyfle i Bartion â Buddiant ddechrau adolygu'r cais ynghynt.

Unrhyw fater arall

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod yn cydweithio'n agos â'r Grid Cenedlaethol i leihau'r effaith ar randdeiliaid lleol mewn perthynas â llwythi gwaith posibl yn deillio o gyflwyno'r ddau gais.

Penderfyniadau penodol/gweithgarwch dilynol gofynnol?

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

Byddai'r Arolygiaeth yn trefnu cyfarfod rhwng swyddog rhaglen yr Arolygiaeth a swyddog logisteg yr Ymgeisydd i baratoi ar gyfer lleoliadau gwrandawiadau a chyfarfodydd cyhoeddus, ac ystyriaethau eraill yn ymwneud â logisteg yr archwiliad.